POLICY

# RHODDION A LLETYGARWCH

Bwriad y polisi hwn a'i weithdrefn gysylltiedig yw gweithredu fel canllaw wrth benderfynu ar y camau cywir i'w cymryd o ran derbyn a datgan rhoddion a lletygarwch. Maent yn berthnasol i:

- bob Aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- holl gyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

Gallai rhoddion a lletygarwch o'r fath gael eu cynnig i unigolion yn rhinwedd eu swydd fel Aelod neu gyflogai o'r Awdurdod Tân ac Achub, a gellir ystyried eu bod yn cael effaith ar y rôl honno. Gallai effeithio ar:

- sut yr ystyrir eu bod yn cyflawni eu rôl;
- p'un ai a ydynt yn cael eu hystyried yn ddiduedd;
- p'un ai a ystyrir eu bod wedi colli'r didueddrwydd hwnnw o ganlyniad i dderbyn y rhodd neu'r lletygarwch.

Mae'r dull gofynnol o ymdrin â rhoddion a lletygarwch yn seiliedig ar eu natur a'u gwerth. Yr unigolyn sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniad yn ymwneud â rhoddion a lletygarwch, er y gellir gofyn am arweiniad gan y Clerc / Swyddog Monitro.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Llinell yw penderfynu a ellir derbyn rhodd neu letygarwch; gallai derbyn rhoddion neu letygarwch ddwyn anfri ar yr unigolyn neu'r Awdurdod Tân ac Achub os yw'n creu'r argraff bod:

- rhywun yn ceisio cael, neu eisoes wedi cael, eu trin yn ffafriol;
- rhywun yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau;
- pobl a ddylai fod yn gweithio er budd y cyhoedd yn defnyddio eu rolau er eu budd eu hunain.

Wrth benderfynu a ddylid derbyn unrhyw roddion neu letygarwch, beth bynnag fo'u gwerth, dylai'r Rheolwr Llinell ystyried a fyddai aelod o'r cyhoedd sy'n llwyr ymwybodol o'r ffeithiau yn credu'n rhesymol:

- y gallai'r rhodd a/neu'r lletygarwch a dderbyniwyd fod wedi dylanwadu ar yr unigolyn;
- bod y rhodd / lletygarwch yn amhriodol fel arall.

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi penderfynu:

- y dylid cofnodi unrhyw roddion neu letygarwch sy'n werth mwy na £25;
- bod yn rhaid datgan pob rhodd o arian parod sy'n cael ei rhoi gan aelodau o'r cyhoedd ac y bydd yn cael ei rhoi i Elusen y Diffoddwyr Tân. Ni ddylid derbyn unrhyw roddion arian parod eraill.

Fodd bynnag, at ddibenion tryloywder, dylai unrhyw unigolyn sy'n derbyn neu'n gwrthod rhodd neu letygarwch e-bostio'r manylion llawn at y Swyddog Monitro (aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub) neu'r Pennaeth Cyllid a Chaffael (cyflogeion GTAGC) i'r cyfeiriad canlynol o fewn 20 diwrnod: declarations@tangogleddcymru.llyw.cymru.

Argymhellir bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei hadolygu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid rheoliadol a ddaw i rym yn y cyfamser.

| |
|---|
| Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog (Adran)** | Pennaeth Cyllid a Chaffael;<br>Swyddog Monitro | **Fersiwn** | 1.0 |
| **Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad y swydd)** | Pennaeth Cyllid a Chaffael;<br>Swyddog Monitro | **Dyddiad yr adolygiad diwethaf** | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Undebau yr ymgynghorwyd â nhw** | FBU, FOA, Unsain, Unite | **Dyddiad anfon at undebau ar gyfer ymgynghoriad** | 4 Medi 2023 |
| **Cymeradwywyd gan (Pwyllgor/Grŵp)** | Pwyllgor Safonau'r Awdurdod Tân ac Achub | **Dyddiad cymeradwyo gan (Pwyllgor/Grŵp)** | 13 Hydref 2023 |
| **Cymeradwywyd gan (Pwyllgor/Grŵp)** | Tîm Arwain Gwasanaeth | **Dyddiad cymeradwyo gan (Pwyllgor/Grŵp)** | 21 Tachwedd 2023 |
| **Cymeradwywyd gan (Pwyllgor/Grŵp)** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | **Dyddiad cymeradwyo gan (Pwyllgor/Grŵp)** | |